Dadansoddiad o Adroddiadau Arolwg
CYSAG Sir Ddinbych

Haf 2015

(adroddiadau a gyhoeddwyd yn nhymor y Gwanwyn)

4 ysgol

Ysgol	Dyddiad	Arolygydd Adrodd
Ysgol Emmanuel	Ionawr 2015	Susan Davies
Mae Ysgol Emmanuel ar gyrion tref arfordirol y Rhyl. Mae'r dalgylch yn ddifreintiedig yn gymdeithasol ac yn economaidd, gyda lefelau uchel yn ddi-waith a chryn dipyn o gyflogaeth sy'n dymhorol. Mae hyn yn effeithio ar nifer y disgyblion sy'n ymuno â'r ysgol ac yn gadael yr ysgol dros y flwyddyn academaidd. Rhwng mis Medi 2013 a Gorffennaf 2014 ymunodd 44 o ddisgyblion ag Ysgol Emmanuel a gadawodd 40 o ddisgyblion yr ysgol. Mae'r ardal wedi'i dynodi fel un o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru ac Ewrop. Mae gan yr ysgol 470 o ddisgyblion, gan gynnwys 58 o ddisgyblion sy'n mynychu'r feithrinfa yn rhan amser. Mae 16 o ddosbarthiadau oedran unigol a darpariaeth adnoddau ar gyfer disgyblion gydag anawsterau dysgu cymedrol. Mae cylch meithrin annibynnol ar y safle hefyd. *Mae tua 48% o'r disgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, canran sylweddol uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol a lleol. Mae'r ysgol wedi nodi bod 40% o'r disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, sydd hefyd gryn dipyn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd â datganiad statudol o anghenion addysgol arbennig. Nid oes unrhyw ddisgybl yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf yn y cartref. Mae nifer fechan o ddisgyblion yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol ac ychydig iawn yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol.*		
Ysgol Frongoch	Tach 2014	Anthony Bate
Mae Ysgol Frongoch yn ysgol iau gymunedol yn nhref Dinbych. Mae mwyafrif y disgyblion yn byw yn ardal gyfagos Dinbych Isaf. Mae ychydig o'r disgyblion yn dod o Ddinbych Uchaf a'r pentrefi cyfagos. Mae'r ysgol yn darparu ar gyfer disgyblion rhwng saith ac un ar ddeg oed ac mae 207 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd. Mae wyth dosbarth yn yr ysgol. Mae pedwar dosbarth gyda disgyblion o oed cymysg a phedwar dosbarth gyda disgyblion o'r un grŵp oedran. *Mae tua 13% o'r disgyblion yn derbyn prydau ysgol am ddim, sy'n is na chyfartaledd yr awdurdod lleol a chenedlaethol.* *Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion o ethnigrwydd Prydeinig gwyn gydag 8% o gefndir ethnig lleiafrifol, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Daw y rhan fwyaf o'r disgyblion o gartrefi lle mae Saesneg yn iaith gyntaf iddynt. Mae 7 disgybl yn derbyn cymorth gyda Saesneg fel iaith ychwanegol.* *Mae'r ysgol yn nodi bod gan oddeutu 19% o'r disgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sy'n debyg i'r cyfartaledd cenedlaethol. Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae ychydig iawn o'r disgyblion wedi'u gwahardd dros dro. Mae ychydig iawn o'r disgyblion yn derbyn gofal gan yr awdurdodau lleol.*		
Ysgol Gynradd Pentrecelyn	Tach 2014	Terwyn Tomos
Mae Ysgol Gynradd Gymunedol Pentrecelyn, sy'n cael ei chynnal gan awdurdod lleol Sir Ddinbych, wedi'i lleoli tua phedair milltir i'r de o dref Rhuthun. Mae'r ysgol yn ysgol cyfrwng Cymraeg sy'n gwasanaethu'r gymuned amaethyddol o gwmpas pentref Pentrecelyn. *Ar hyn o bryd, mae 35 o ddisgyblion ar y gofrestr o oed derbyn i Flwyddyn 6. Mae plant yn cael eu derbyn i'r dosbarth meithrin yn y boreau yn unig yn y tymor llawn cyntaf ar ôl eu pen-blwydd yn dair oed. Ar hyn o bryd, mae 12 o blant yn mynychu'r dosbarth meithrin yn rhan amser.* *Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae hyn gryn dipyn yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Mae 64% o'r disgyblion yn dod o aelwydydd sy'n siarad Cymraeg.* *Mae 14% o'r disgyblion wedi'u nodi fel rhai ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 22%. Nid oes gan unrhyw ddisgybl ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Nid oes unrhyw ddisgyblion yn yr ysgol o gefndir ethnig lleiafrifol.*		

SYLWADAU CADARNHAOL

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r canlyniadau?

Lles

- Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau cymunedol, ac yn cefnogi elusennau lleol a chenedlaethol hefyd. (Frongoch)
- Mae'r ysgol yn cefnogi nifer o elusennau, lleol a thramor. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ymwybyddiaeth disgyblion o anghenion unigolion eraill. (Pentrecelyn)

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Profiadau dysgu:

- Mae gan yr holl ddosbarthiadau gysylltiadau buddiol gyda gwledydd yn Ewrop a'r byd ehangach. Mae'r cysylltiadau rhyngwladol hyn yn cefnogi'r disgyblion i ddatblygu eu dealltwriaeth o fywydau pobl mewn gwahanol wledydd. (Emmanuel)
- Mae'r ysgol yn llwyddo i ehangu gorwelion a dealltwriaeth y disgyblion o'r byd ehangach. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn datblygu dealltwriaeth bwysig o'u rôl fel dinasyddion byd-eang. (Frongoch)
- Mae Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang yn cael ei hyrwyddo trwy waith y cwricwlwm a gweithgareddau cyngor yr ysgol a'r cyngor eco. (Pentrecelyn)

Gofal, Cymorth ac Arweiniad:

- Mae'r staff yn darparu'n dda ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion trwy weithredoedd dyddiol o addoli ar y cyd ac amrywiaeth diddorol o weithgareddau cwricwlwm. Mae cyfleoedd da iawn i ddisgyblion adlewyrchu ar eu credoau, rhinweddau personol a sgiliau. (Emmanuel)
- Mae profiadau dysgu yn hyrwyddo datblygiad personol y disgyblion yn dda, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. (Frongoch)
- Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r athrawon yn galluogi'r disgyblion i gymryd rôl amlwg yn y gwasanaethau bore, ac mae bron pob un yn ymateb yn gadarnhaol i'r cyfleoedd hyn. (Pentrecelyn)

Yr amgylchedd dysgu:

- Mae pwyslais amlwg ar adnabod, parchu a dathlu amrywiaeth a chreu ethos sy'n meithrin gofal a goddefgarwch. (Frongoch)

Cwestiwn allweddol 3: Pa mor dda yw arweinyddiaeth a rheolaeth?

Arweinyddiaeth:

Gweithio mewn Partneriaeth:

- Mae cysylltiadau buddiol gyda'r gymuned ehangach, sy'n cael dylanwad cadarnhaol ar brofiadau dysgu a lles y disgyblion, er enghraifft ymweliadau sy'n gwella dealltwriaeth y disgyblion o straeon y Beibl. (Frongoch)
- Mae'r ysgol yn rhan bwysig o'r gymuned, ac mae perthynas gref rhyngddynt. Yn ogystal â chynnal gwasanaethau bob tymor yn yr eglwys a'r capel, mae'r ysgol yn croesawu aelodau o'r gymuned i ymuno â disgyblion a staff ar rai achlysuron, er enghraifft i gael cinio adeg y Nadolig. (Pentrecelyn)